**TRETH Y CYNGOR**
**GOSTYNGIAD I BOBL AG AMHARIAD GWYBYDDOL ARWYDDOCAOL**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Eich Enw a'ch Cyfeiriad:

Gwasanaethau Refeniw
Tŷ Dewi Sant
Parc Dewi Sant, Ewlo
Sir y Fflint CH5 3FF

Rhif Ffôn: (01352) 704848

Os byddwch chi'n cysylltu â ni, gofynnwn ichi roi cyfeirnod eich cyfrif

Gallai fod unrhyw un sydd ag amhariad gwybyddol arwyddocaol a ardystiwyd gan feddyg sy'n effeithio ar eu deallusrwydd neu eu gweithrediad cymdeithasol fod yn gymwys i gael gostyngiad yn Nhreth y Cyngor. Mae hynny'n golygu bod gan rywun gyflwr parhaol sy'n cael effaith arwyddocaol ar eu deallusrwydd a'u gallu i weithredu'n gymdeithasol.

Mae cyflyrau sy'n gallu arwain at amhariad gwybyddol arwyddocaol clefyd Alzheimer a mathau eraill o ddementia, clefyd Parkinson, anawsterau dysgu difrifol a strôc, yn ogystal â llawer o gyflyrau eraill. I fod yn gymwys, mae'n rhaid bod wedi cael diagnosis o amhariad gwybyddol arwyddocaol gan feddyg a bod â hawl i un o'r budd-daliadau a restrir ar y ffurflen hon (p'un a ydynt yn eu derbyn ai peidio).

Lefel y gostyngiad:

- Os ydych wedi cael diagnosis o amhariad gwybyddol arwyddocaol gan feddyg a'ch bod yn byw ar eich pen eich hun neu gyda phobl eraill ag amhariad gwybyddol arwyddocaol yn unig, byddwch yn gymwys i gael eich eithrio rhag talu Treth y Cyngor.

- Os ydych wedi cael diagnosis o amhariad gwybyddol arwyddocaol gan feddyg ac yn byw gydag un oedolyn sy'n gymwys i dalu Treth y Cyngor, bydd eich aelwyd yn gymwys i gael gostyngiad o 25%.

- Os ydych wedi derbyn diagnosis o amhariad gwybyddol arwyddocaol gan feddyg ac yn byw gyda dau o oedolion neu fwy sy'n gymwys i dalu Treth y Cyngor, ni fydd unrhyw ostyngiad.

Llenwch y ffurflen hon mewn **INC DU** os gwelwch yn dda.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth neu gyngor wrth lenwi'r ffurflen hon, mae croeso i chi ymweld ag un o'n Canolfannau Cyswllt ym Mwcle, y Fflint, Cei Connah, Treffynnon neu'r Wyddgrug.

## RHAN A: Gwybodaeth bersonol

Enw llawn y sawl sy’n ymgeisio i gael eu diystyru:

Rhif Yswiriant Gwladol:

Dyddiad Geni: D D M M B B B B

Cyfeiriad:

Côd Post:

Rhif Ffôn:

Manylion eich Aelwyd:

Rhowch enwau pawb sy’n 18 oed neu’n hŷn sy’n byw yn yr eiddo, gan gynnwys y sawl sydd ag amhariad gwybyddol arwyddocaol.

| Teitl | Enw Cyntaf | Cyfenw |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## RHAN B: Datganiad o hawl i fudd-daliadau

Dim ond pobl sydd â hawl i un o'r budd-daliadau canlynol (p'un a ydynt yn eu derbyn ai peidio) a all gael eu heithrio neu'u diystyru ar sail eu hamhariad gwybyddol arwyddocaol.

| Ticiwch y bocs(ys) perthnasol: | | Ers pryd oedd y budd-daliadau'n gymwys? |
|---|---|---|
| ☐ | Budd-dal Analluogrwydd | D D M M B B B B |
| ☐ | Lwfans Gweini | D D M M B B B B |
| ☐ | Lwfans Anabledd Difrifol | D D M M B B B B |
| ☐ | Lwfans Byw i'r Anabl<br>(yr elfen ofal ar y gyfradd uwch neu ganol) | D D M M B B B B |
| ☐ | Cynnydd mewn pensiwn anabledd<br>(gan fod angen gweini cyson) | D D M M B B B B |
| ☐ | Lwfans Gweithio i'r Anabl | D D M M B B B B |
| ☐ | Cymhorthdal Incwm<br>(sy'n cynnwys premiwm anabledd) | D D M M B B B B |
| ☐ | Ychwanegiad neu Lwfans Cyflogadwyedd | D D M M B B B B |
| ☐ | Lwfans Gweini Cyson | D D M M B B B B |
| ☐ | Taliad Annibyniaeth Bersonol | D D M M B B B B |
| ☐ | Taliad Annibynnol y Lluoedd Arfog | D D M M B B B B |
| ☐ | Credyd Cynhwysol<br>(mewn sefyllfaoedd ble mae cyfyngiad ar allu rhywun i weithio a/neu gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith) | D D M M B B B B |

**Os ydych chi'n derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau uchod neu fod hawl gennych iddynt, darparwch dystiolaeth ar ffurf copi o'r llythyr dyfarniad neu ddogfen tâl, er**

**enghraifft.**

## RHAN C: Datganiad Meddyg neu Ymarferydd Meddygol

Enw'r meddyg/ymarferydd meddygol:

Manylion cyswllt y feddygfa/ysbyty

Cyfeiriad:

Côd Post: Rhif Ffôn:

Bernir bod gan rywun **amhariad gwybyddol arwyddocaol** os oes amhariad arwyddocaol ar eu deallusrwydd a'u gweithrediad cymdeithasol (sut bynnag yr achosir hynny) sy'n barhaol yn ôl pob golwg. *Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Atodlen 1, Paragraff 2).*

Gallaf gadarnhau bod gan yr unigolyn a enwir yn RHAN A amhariad gwybyddol arwyddocaol fel y'i diffinnir uchod. (Ticiwch un)

Oes ☐ Nac ☐

Efallai y bydd modd ôl-ddyddio'r eithriad/gostyngiad yn Nhreth y Cyngor hyd adeg y diagnosis. At ddibenion y ffurflen hon, nodwch yr adeg gyntaf y byddech o'r farn fod gan y claf amhariad gwybyddol arwyddocaol.

Dyddiad Diagnosis:

D D / M M / B B B B

Llofnod y meddyg:

Dyddiad:

D D / M M / B B B B

Stamp Swyddogol:

Sylwer: Ni ddylai Meddygon Teulu godi tâl am y diagnosis nac ychwaith am lenwi'r ffurflen hon.
*Cymdeithas Feddygol Prydain, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 2004 (Rheoliad 21(1) ac Atodlen 4)*.

## RHAN Ch: Datganiad yr Ymgeisydd

Derbyniaf yr holl gyfrifoldeb am y wybodaeth a roddir yn y ffurflen hon ac rwy'n datgan ei fod yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Awdurdodaf y cyngor i wneud unrhyw ymholiadau y mae o'r farn sy'n angenrheidiol er mwyn gwirio manylion yr hawliad hwn a hysbysu o unrhyw newid mewn amgylchiadau.

Llofnod yr ymgeisydd:

Dyddiad: D D M M B B B B

Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen ar ran yr ymgeisydd, beth yw eu perthynas â chi?

Enw'r sawl sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd:

Cyfeiriad sawl sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd:

Llofnod y sawl sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd:

Dyddiad: D D M M B B B B

## Hysbysiad Preifatrwydd

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch ar y ffurflen hon, ac unrhyw dystiolaeth ategol y byddwch yn ei rhoi, i asesu'r swm o Dreth y Cyngor y mae'n ofynnol ichi ei dalu. Mae hynny'n ofynnol dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a'r holl reoliadau perthnasol eraill sy'n gysylltiedig ag asesu Treth y Cyngor.

Fe fyddwn yn cadw eich data gydol y cyfnod y mae'n ofynnol ichi dalu Treth y Cyngor ac am gyfnod o saith mlynedd wedi i'r gofyniad ichi dalu Treth y Cyngor ddod i ben.

Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda gwasanaethau eraill y Cyngor er mwyn sicrhau bod ein cofnodion yn gywir ac yn gyfredol, i wella safon y gwasanaethau rydym yn eu cynnig, a chyflawni unrhyw rai o'n dyletswyddau statudol, gan gynnwys dyletswyddau gorfodi.

Efallai y bydd Cyngor Sir y Fflint yn gwirio'r wybodaeth rydych wedi'i darparu, neu wybodaeth amdanoch chi y mae rhywun arall wedi'i darparu, yn ôl gwybodaeth arall sydd gennym. Efallai y byddwn hefyd yn cael gwybodaeth amdanoch gan drydydd parti, neu'n rhoi gwybodaeth iddyn nhw er mwyn:

- sicrhau bod y wybodaeth yn gywir
- atal neu ganfod troseddau
- asesu neu gasglu unrhyw dreth neu dollau neu unrhyw ardreth o'r fath
- diogelu arian cyhoeddus.

*Os credwch fod Cyngor Sir y Fflint wedi camddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i'w gwefan neu ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.*

*I gael ychwaneg o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan – https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx*